Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales



# Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Serfigol Cymru 2022-2023

Fersiwn 1.0
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/This document is available in English

## Manylion cyhoeddi

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb manwl o wybodaeth am waith a wnaed gan Raglen Sgrinio Serfigol Cymru ar gyfer y flwyddyn Ebrill 2022 hyd at ddiwedd Mawrth 2023.

**Teitl:** Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Serfigol Cymru 2022-23

**Dyddiad:** Mawrth 2026

**ISBN:** 978-1-83766-780-2

## Manylion cyswllt

Yr Adran Wybodeg, Llawr 6, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ
E-bost: Screening.Information@wales.nhs.uk
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg heb oedi. We will respond to correspondence in Welsh without delay.

## Datganiad Sicrwydd Ansawdd

Mae cofnodion sgrinio data yn newid yn gyson. Mae'r cronfeydd data a ddefnyddir gan Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diweddaru'n ddyddiol pan fydd cofnodion yn cael eu hychwanegu, eu newid neu eu dileu (wedi'u harchifo). Gallai hyn ymwneud â phryd y nodwyd bod angen sgrinio person; wedi cael canlyniadau sgrinio y mae angen eu cofnodi neu wedi newid statws ac nad oes angen ei sgrinio mwyach yn y drefn honno. Derbynnir data o nifer fawr o wahanol ffynonellau gyda lefelau amrywiol o gywirdeb a chyflawnrwydd. Mae'r Is-adran Sgrinio yn gwirio data am gywirdeb trwy gymharu setiau data, er enghraifft data practisau Meddygon Teulu, ac yn cywiro'r data codio lle bo modd. Dylid nodi bod oedi weithiau wrth gasglu data, er enghraifft efallai na fydd person yn cofrestru ar unwaith gyda'i Feddyg Teulu. Bydd yr oedi hwn felly yn effeithio ar gyflawnrwydd y data yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Yn ogystal, dylai'r darllenydd fod yn ymwybodol bod data'n cael ei ddiweddaru'n gyson ac efallai y bydd mân newidiadau yn y niferoedd a nodir yn y ddogfen hon o flwyddyn i flwyddyn oherwydd adnewyddu data. Wrth ymdrin â data o ardaloedd daearyddol bach, o bryd i'w gilydd byddwn yn atal niferoedd sy'n is na phump pan fydd y data'n sensitif o bosibl.

## Gwybodaeth hawlfraint

© 2026 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) (https://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/) ar yr amod y caiff ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid nodi cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol, y dylunwaith a’r cynllun yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Delwedd y clawr: Adnodd mewnol Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llyfrgell Asedau Iechyd Cyhoeddus Cymru (https://phwassets.nhs.wales). Rhif yr Ased: 219690

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys

Negeseuon allweddol ........ 7
Cyflwyniad ........ 8
Cefndir ........ 8
Cyflawni'r rhaglen ........ 9
Llwybr Sgrinio ........ 10
Prif Ystadegau ........ 12
Data ........ 13
Cwmpas ........ 13
Cyfranogwyr a wahoddwyd ........ 18
Cyfranogwyr a gafodd eu profi ........ 20
Amseroedd cyhoeddi canlyniadau samplau sgrinio yn ôl bwrdd iechyd ........ 23
Samplau a adroddwyd gan labordy sgrinio serfigol ........ 26
APV, PPV ac RV ........ 32
Amseroedd y mae labordy patholeg yn eu cymryd i gwblhau eu prosesau ........ 35
Gweithgaredd colposgopi ........ 36
Amseroedd aros colposgopi ........ 39
Cyfanswm yr apwyntiadau colposgopi a fynychwyd ........ 43
Cleifion newydd a welwyd a'r canlyniad gwaethaf o ran histoleg ........ 45
Archwiliad o ganser ceg y groth yng Nghymru 2021-22 ........ 48
Statws wedi'i ganfod trwy sgrinio ........ 52
Diffiniadau ........ 56
Y Tîm Cynhyrchu ........ 58
Manylion cyswllt y rhaglen ........ 59

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Tablau


Tabl 1: Cwmpas Sgrinio Serfigol Addas i'r Oedran yn ôl Grŵp Oedran ....... 14
Tabl 2: Cwmpas sgrinio serfigol (rhai 25-64 oed) yn ôl bwrdd iechyd y preswylir ynddo Ffig. ....... 16
Tabl 3: Unigolion a wahoddwyd yn ôl grŵp oedran a bwrdd iechyd ....... 19
Tabl 4: Unigolion a gafodd eu sgrinio yn ôl grŵp oedran a bwrdd iechyd ....... 21
Tabl 5: Amser o'r dyddiad y cymerwyd y sampl i anfon llythyr y canlyniad, yn ôl bwrdd iechyd ....... 24
Tabl 6: Nifer y samplau sgrinio serfigol yr adroddwyd amdanynt yn ôl ffynhonnell y prawf ....... 27
Tabl 7: Nifer y samplau sgrinio serfigol yr adroddwyd amdanynt gan y bwrdd iechyd y preswylir ynddo a ffynhonnell y prawf ....... 27
Tabl 8: Canran y samplau sgrinio serfigol yr adroddwyd amdanynt yn ôl y bwrdd iechyd y preswylir ynddo a ffynhonnell y prawf ....... 28
Tabl 9: Samplau cytoleg annigonol yr adroddwyd amdanynt gan labordy sgrinio serfigol ....... 29
Tabl 10: Samplau cytoleg gradd uchel yr adroddwyd amdanynt ....... 29
Tabl 11: Nifer y samplau cytoleg digonol yr adroddwyd amdanynt yn ôl canlyniad y prawf a'r grŵp oedran ....... 30
Tabl 12: Nifer a chanlyniad samplau digonol yr adroddwyd amdanynt ....... 31
Tabl 13: Canlyniad i fenywod a atgyfeiriwyd rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 yn dilyn canlyniad annigonol, negatif neu radd isel ....... 33
Tabl 14: Canlyniad i fenywod a atgyfeiriwyd rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 yn dilyn canlyniad gradd uchel - ac eithrio menywod a atgyfeiriwyd gyda chanlyniad prawf o ?neoplasia chwarennol (heb fod yn serfigol) ....... 33
Tabl 15: Canlyniad i fenywod a atgyfeiriwyd yn uniongyrchol rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 yn dilyn canlyniad gradd uchel ....... 34
Tabl 16: Amseroedd y mae labordy patholeg yn eu cymryd i gwblhau eu prosesau, o ddyddiad derbyn y sampl, hyd at ddyddiad awdurdodi'r canlyniad gyntaf ....... 35
Tabl 17: Nifer yr atgyfeiriadau colposgopi yn ôl ffynhonnell yr atgyfeiriad a chlinig colposgopi ....... 37
Tabl 18: Nifer y cleifion newydd a welwyd mewn clinigau colposgopi yn ôl canlyniad prawf atgyfeirio ....... 38
Tabl 19: Amseroedd aros yn ôl bwrdd iechyd a math o atgyfeiriad ....... 41
Tabl 20: Cyfanswm yr apwyntiadau colposgopi a fynychwyd yn ôl math o ymweliad a bwrdd iechyd Ffigur ....... 44
Tabl 21: Cleifion newydd a welwyd yn ôl math o atgyfeiriad a'r canlyniad gwaethaf o ran histoleg ....... 46
Tabl 22: Cleifion newydd a welwyd yn ôl bwrdd iechyd a'r canlyniad gwaethaf o ran histoleg ....... 47

# Ffigurau


Ffigur 1: Y llwybr ar gyfer sgrinio serfigol ... 11
Ffigur 2: Cwmpas Sgrinio Serfigol Addas i'r Oedran yn ôl Grŵp Oedran ... 15
Ffigur 3: Cwmpas sgrinio serfigol cyfunol y grŵp oedran targed (unigolion 25-64 oed) yn ôl bwrdd iechyd ... 17
Ffigur 4: Nifer yr unigolion (25-64 oed) a wahoddwyd ac a brofwyd bob blwyddyn ... 22
Ffigur 5: Amser o'r dyddiad y cymerwyd y sampl i anfon llythyr y canlyniad, yn ôl bwrdd iechyd ... 25
Ffigur 6: Canran yr holl atgyfeiriadau newydd y cynigiwyd apwyntiad iddynt o fewn 8 wythnos yn ôl bwrdd iechyd (heb gynnwys oediadau a achoswyd gan gleifion) ... 42
Ffigur 7: Canran yr holl atgyfeiriadau newydd y cynigiwyd apwyntiad iddynt o fewn 4 wythnos yn ôl bwrdd iechyd (heb gynnwys oediadau a achoswyd gan gleifion) ... 42
Ffigur 8: Nifer y Canserau Ceg y Groth yn ôl Band Oedran ... 49
Ffigur 9: Nifer y canserau ceg y groth yn ôl math ac oedran adeg diagnosis ... 50
Ffigur 10: Nifer y canserau ceg y groth a gafodd ddiagnosis rhwng 2013 a 2022 yn ôl cam ac oedran adeg y diagnosis ... 51
Ffigur 11: Nifer y canserau ceg y groth yn ôl cam a statws canfod drwy sgrinio ... 53
Ffigur 12: Nifer y canserau ceg y groth yn ôl oedran a statws canfuwyd drwy sgrinio ... 54
Ffigur 13: Canserau nas canfuwyd drwy sgrinio yn ôl cam a hanes sgrinio ... 55

# Negeseuon allweddol

- Nod sgrinio serfigol yw atal canser rhag datblygu yng ngheg y groth drwy nodi'r rhai sydd mewn mwy o berygl a chanfod newidiadau mewn celloedd yn gynnar fel y gellir eu trin yn haws.
- Gwahoddir unigolion o 25 oed i gael eu sgrinio bob pum mlynedd.
- Mae prawf sgrinio serfigol (prawf ceg y groth) yn brawf y GIG am ddim a gynhelir yn eich meddygfa neu mewn rhai clinigau iechyd rhywiol.
- Mae'r prawf yn gyflym ac yn syml ac ni ddylai fod yn boenus ond gallai fod yn anghyfforddus i rai unigolion.
- Mae tystiolaeth yn dangos y bydd mynychu sgrinio rheolaidd yn atal 7 allan o 10 o ganserau. Dewis yr unigolyn yw cymryd rhan mewn sgrinio serfigol. Gofynnir i'r rhai sydd wedi'u gwahodd ddarllen y daflen wybodaeth a ddarperir yn ofalus i'w cynorthwyo i wneud eu penderfyniad.

# Cyflwyniad

## Cefndir

Mae Sgrinio Serfigol Cymru yn gyfrifol am raglen sgrinio serfigol y GIG yng Nghymru. Nod y rhaglen sgrinio serfigol yw lleihau nifer yr achosion o ganser serfigol ymledol, ynghyd ag afiachedd a marwolaethau ohono.

### Cymhwysedd cyfredol

Gwahoddir unigolion cymwys yng Nghymru i gael sgrinio serfigol o 24 blwydd ac 8 mis oed, hyd at 64 oed.

Cyn 01/01/2022 y cyfnodau rhwng sgrinio oedd:

- bob tair blynedd i rai 25 i 49 oed
- bob pum mlynedd i rai 50 i 64 oed

Ers 01/01/2022 mae unigolion 25-64 oed yn cael eu gwahodd i gael eu sgrinio bob pum mlynedd yn unol ag argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU, i'r rhai sy'n profi'n negatif am Feirws Papiloma Dynol (HPV).

### Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol

Casglwyd yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn o'r ffynonellau canlynol:

1. NHAIS (Gwasanaethau Cymwysiadau a Seilwaith Iechyd Gwladol) a systemau galw ac ailalw CSIMS (System Rheoli Gwybodaeth Sgrinio Serfigol) a ddefnyddir gan yr Adrannau Gweinyddu Sgrinio Serfigol.

2. Y system LIMS Genedlaethol (WLIMS) sy'n cefnogi Meddyginiaeth Labordy yng Nghymru.

3. Canisc – System Gwybodaeth Canser Cymru sy'n gronfa ddata genedlaethol ac yn cofnodi data clinigol a gweinyddol o wasanaethau colposgopi ar draws pob bwrdd iechyd.

Ceir esboniad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen yn adran 5 (Diffiniadau).

## Lleoliadau sgrinio

Cynhelir y rhan fwyaf o brofion sgrinio serfigol (prawf ceg y groth) mewn gofal sylfaenol neu mewn clinig cymunedol neu glinig iechyd rhywiol. Cymerir nifer fach o brofion mewn gofal eilaidd, mewn clinigau colposgopi neu glinigau gynaecoleg.

## Crynodeb o'r gweithgarwch yn ystod y flwyddyn yr adroddir amdani

Ym mis Medi 2022, cyflwynwyd CSIMS (System Rheoli Gwybodaeth Sgrinio Serfigol) y systemau galw ac ailalw a ddefnyddir gan yr Adrannau Gweinyddu Sgrinio Serfigol a ddisodlodd y system NHAIS (Gwasanaethau Cymwysiadau a Seilwaith Iechyd Gwladol). Mae cyflwyno'r System Rheoli Gwybodaeth Sgrinio Serfigol (CSIMS) yn rhoi mwy o amlygrwydd i reoli llwybrau ledled Cymru yn ogystal â'r cyfle i wahodd unigolion trawsryweddol i gael sgrinio serfigol lle mae Sgrinio Serfigol Cymru yn cael ei hysbysu am y gofyniad hwn.

Newidiodd labordy Sgrinio Serfigol Cymru offer profi ei labordy hefyd ac o ganlyniad y dull o ganfod Feirws Papiloma Dynol (HPV) o ganfod RNA i ganfod DNA.

## Edrych ymlaen at y flwyddyn sgrinio nesaf

Yn y flwyddyn i ddod bydd Sgrinio Serfigol Cymru yn ymgorffori'r System Rheoli Gwybodaeth Sgrinio Serfigol (CSIMS) ac yn cryfhau'r wybodaeth a ddarperir i gyfranogwyr â chanlyniadau Feirws Papiloma Dynol (HPV) negatif.

# Cyflawni'r rhaglen

Mae Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am reoli, cyflwyno a sicrhau ansawdd y rhaglen sgrinio serfigol yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o brofion sgrinio serfigol (prawf ceg y groth) yn cael eu cynnal gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig mewn gofal sylfaenol neu mewn clinig cymunedol neu iechyd rhywiol. Cymerir nifer fach o brofion mewn gofal eilaidd, mewn clinigau colposgopi neu glinigau gynaecoleg.

Mae'r rhaglen sgrinio serfigol yn rhaglen Cymru Gyfan, gyda thîm llywodraethu canolog a thair canolfan ranbarthol sy'n gyfrifol am reolaeth weithredol a sicrhau ansawdd y rhaglen sgrinio yn eu hardal: Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru.

## Llwybr Sgrinio

Gwahoddir unigolion cymwys yng Nghymru i gael sgrinio serfigol o 24 blwydd ac 8 mis oed, hyd at 64 oed.

Cyn 01/01/2022 y cyfnodau rhwng sgrinio oedd:

- bob tair blynedd i rai 25 i 49 oed
- bob pum mlynedd i rai 50 i 64 oed

Ers 01/01/2022 mae unigolion 25-64 oed yn cael eu gwahodd i gael eu sgrinio bob pum mlynedd yn unol ag argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU, i'r rhai sy'n profi'n negatif am Feirws Papiloma Dynol (HPV).

O fis Ebrill 2017 ymlaen, fel rhan o'r cynllunio ar gyfer cyflwyno sgrinio sylfaenol ar gyfer Feirws Papiloma Dynol (HPV) risg uchel (hrHPV) yn llawn, dechreuodd cyfnod 'mabwysiadwyr cynnar' o brofion sgrinio sylfaenol gan ddefnyddio profi am Feirws Papiloma Dynol (HPV) ledled Cymru. Profwyd ychydig o dan 20% o samplau sgrinio serfigol am hrHPV fel y prif brawf sgrinio. Yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2018, wrth i'r rhaglen barhau, profwyd 30% arall o'r holl samplau sgrinio am hrHPV.

Cyn hyn, roedd profion Feirws Papiloma Dynol (HPV) wedi'u cyflwyno'n raddol o 2014 ar gyfer brysbennu a phrofion 'prawf iachâd' ar gyfer llwybrau diffiniedig.

Ym mis Medi 2018, dechreuwyd profi pob sampl am hrHPV fel y prif brawf sgrinio. Erbyn 1 Hydref 2018, roedd Cymru wedi symud yn llwyr at sgrinio sylfaenol ar gyfer hrHPV. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i weithredu hrHPV yn llwyr fel y prif brawf sgrinio.


Mae pob sampl bellach yn cael ei brofi yn labordy Parc Magden Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Llantrisant. Os nad oes hrHPV wedi'i ganfod mewn sampl, bydd labordy Magden Park yn cyhoeddi canlyniad. Ni chaiff y celloedd yn y sampl eu harchwilio.

Os canfyddir hrHPV mewn sampl, gwneir sleid, ac archwilir y celloedd i lawr microsgop gan Sgrinwyr Cytoleg. Os oes unrhyw newidiadau i gelloedd, anfonir y sleid at un o rwydwaith clinigol ffurfiol o Batholegwyr Ymgynghorol neu Wyddonwyr Biofeddygol Ymgynghorol ledled Cymru i roi adroddiad yn ei chylch.

Caiff pobl gymwys eu nodi trwy gofrestriadau gyda meddygon teulu ac anfonir llythyr atynt yn eu gwahodd i wneud apwyntiad ar gyfer sgrinio serfigol. Mae gan unrhyw un sydd â cheg y groth o fewn yr ystod oedran sgrinio hawl i fynychu sgrinio serfigol. Gwahoddir unigolion sydd wedi'u cofrestru fel 'benywaidd' gan eu meddyg teulu a dynion trawsryweddol sydd wedi hysbysu Sgrinio Serfigol Cymru y byddent yn hoffi cael eu gwahodd i gael eu sgrinio. Mae taflen sy'n esbonio profion sgrinio wedi'i chynnwys gyda'r llythyr hwn. Anfonir llythyr atgoffa os nad ydynt, i bob golwg, wedi mynychu'r sesiwn sgrinio o fewn amser penodol. Cymerir manylion demograffig o gofrestrfeydd meddygon teulu ar y System Rheoli Gwybodaeth Sgrinio Serfigol (CSIMS), ac mae'n bwysig fod menywod yn sicrhau bod eu henw a'u cyfeiriad yn gyfredol gyda'u meddyg teulu.

Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen a chopïau o adroddiadau ystadegol blaenorol ar gael yn [www.cervicalscreeningwales.wales.nhs.uk](http://www.cervicalscreeningwales.wales.nhs.uk)

## Ffigur 1: Y llwybr ar gyfer sgrinio serfigol



# Prif Ystadegau

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu gweithgaredd o 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 yn gynwysedig.

- Ar 31 Mawrth 2023, roedd cwmpas y sgrinio yn 68.2% ledled Cymru, ac yn fwy na 66% ym mhob Bwrdd Iechyd. Mae'r ffigur hwn yn cyfuno cyfran y rhai 25-49 oed a gafodd eu sgrinio yn y 3.5 mlynedd blaenorol, a chyfran y rhai 50-64 oed a gafodd eu sgrinio yn y 5.5 mlynedd blaenorol. Gelwir hyn yn gwmpas 'addas i'r oedran'.

- Yn 2022-23 gwahoddwyd 228,143 o unigolion rhwng 25 a 64 oed i gael eu sgrinio.

- Cafodd 170,892 o unigolion eu sgrinio yn 2022-23, (gan gynnwys y rhai â chanlyniadau annigonol). Mae'r nifer hwn yn cynnwys unigolion a gafodd eu sgrinio yn ystod y flwyddyn 2022-23 ac nid yw'n adlewyrchu'r holl unigolion a wahoddwyd yn y flwyddyn honno.

- Archwiliodd labordai 173,494 o samplau gan drigolion Cymru yn 2022-23.

- Mewn 0.3% o brofion roedd y canlyniad terfynol yn 'annigonol'. Mae 'annigonol' yn golygu nad oedd ansawdd y sampl yn ddigonol i gynhyrchu canlyniad Feirws Papiloma Dynol (HPV) neu cytoleg, fel roedd yn briodol.

- Mae'r Gwerth Rhagfynegol Positif (PPV) yn cyfatebu cytoleg gradd uchel â histoleg gradd uchel. Ar gyfer 2021-22, mae'r PPV ar gyfer Cymru yn 83.9%.

- Gwelwyd 9,185 o gleifion newydd mewn clinigau colposgopi yng Nghymru yn 2022-23, gyda 67.7% wedi cael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol gan Sgrinio Serfigol Cymru a 32.3% am resymau clinigol, e.e. symptomau neu geg y groth ag ymddangosiad annormal.

- Cafodd 1 o bob 23 o unigolion a sgriniwyd yn ystod y flwyddyn eu hatgyfeirio'n uniongyrchol am golposgopi gan Sgrinio Serfigol Cymru. O'r rhain, roedd gan 1 o bob 148 o unigolion (llai nag 1%) ganser.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Data

## Cwmpas

### Diffiniad a safon

Nid yw ffigurau'r cwmpas yn rhai y gellir eu cymharu yn uniongyrchol o flwyddyn i flwyddyn.

- Cyn 1997-98, roedd pob unigolyn a ddosbarthwyd fel 'ailalw wedi peidio' gan y rhaglen (am resymau meddygol, oedran neu resymau eraill) wedi'u heithrio o'r enwadur a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r cwmpas.
- Ym 1998/99 newidiodd y diffiniad i eithrio dim ond yr unigolion hynny gydag “ailalw wedi peidio am resymau clinigol” (dim ceg y groth)
- Ers 2001-02, dim ond yr unigolion hynny a gafodd brawf digonol yn ystod y 3.5 neu 5 mlynedd diwethaf y mae ffigurau'r cwmpas yn eu cynnwys yn y rhifiadur.

Mae ffigurau cwmpas addas i’r oedran yn cynnwys unigolion 25-49 oed a gafodd brawf digonol yn ystod y 3.5 mlynedd diwethaf ac unigolion 50-64 oed a gafodd brawf digonol yn ystod y 5.5 mlynedd diwethaf yn y rhifiadur.

Safon: Bydd o leiaf 80% o bobl gymwys rhwng 25 a 49 oed wedi cymryd rhan yn y rhaglen sgrinio o fewn y 3.5 mlynedd diwethaf a phobl gymwys rhwng 50 a 64 oed o fewn y 5.5 mlynedd diwethaf.

### Y canlyniad ar gyfer 2022-2023

Ar lefel Cymru gyfan, roedd y cwmpas yn 68.2%.

### Tuedd tair blynedd

Roedd cwmpas lefel Cymru gyfan yn 68.2% yn 2022-23, 69.6% yn 2021-22 a 69.5% yn 2020-21.

### Sylwadau


Ar lefel Cymru gyfan, mae'r cwmpas wedi gostwng ychydig yn 2022-23 o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 1: Cwmpas Sgrinio Serfigol Addas i'r Oedran yn ôl Grŵp Oedran

| Grŵp Oedran | Cymwys – 25 - 49 | Profwyd o fewn 3.5 mlynedd | % Y cwmpas o fewn 3.5 mlynedd |
|---|---|---|---|
| 25-29 oed | 100,425 | 62,712 | 62.4% |
| 30-34 oed | 109,095 | 73,197 | 67.1% |
| 35-39 oed | 106,288 | 72,360 | 68.1% |
| 40-44 oed | 99,183 | 67,384 | 67.9% |
| 45-49 oed | 88,782 | 59,818 | 67.4% |
| 25-49 oed | 503,773 | 335,471 | 66.6% |

| Grŵp Oedran | Cymwys – 50 - 64 | Profwyd o fewn 5.5 mlynedd | % Y cwmpas o fewn 5.5 mlynedd |
|---|---|---|---|
| 50-54 oed | 103,562 | 78,799 | 76.1% |
| 55-59 oed | 104,929 | 73,466 | 70.0% |
| 60-64 oed | 94,015 | 62,524 | 66.5% |
| 50-64 oed | 302,506 | 214,789 | 71.0% |




Ffigur 2: Cwmpas Sgrinio Serfigol Addas i'r Oedran yn ôl Grŵp Oedran

Noder: Yr ystod oedran cymwys ar gyfer sgrinio serfigol yw 25-64 oed.

Yng Nghymru, estynnwyd y cyfnod sgrinio o dair i bum mlynedd ar gyfer pobl 25-49 oed ar 01/01/2022 yn unol ag argymhellion gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU.

Ers 01/01/2022, y cyfnod sgrinio ar gyfer unigolion 25-64 oed yw bob pum mlynedd, i'r rhai sy'n profi'n negatif am HPV.


Mae data cwmpas sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn cael ei adrodd yn unol â gwledydd eraill y DU er mwyn gallu cymharu data rhwng gwledydd.

Mae unigolion dros 50 oed yn cael eu gwahodd i gael eu sgrinio'n rheolaidd bob 5 mlynedd, nid yw'r cwmpas o fewn 3.5 mlynedd yn berthnasol yn y grŵp oedran hwn. Mae cwmpas addas i'r oedran cyfun ar gyfer rhai 25-64 oed wedi'i gyfrifo fel 68.2%. Gweler yr adran diffiniad am fwy o fanylion.

Tabl 2: Cwmpas sgrinio serfigol (rhai 25-64 oed) yn ôl bwrdd iechyd y preswylir ynddo

| Bwrdd Iechyd | Cymwys – 25 - 49 | Profwyd o fewn 3.5 mlynedd | % Y cwmpas o fewn 3.5 mlynedd |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 99,184 | 67,384 | 67.9% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 102,578 | 69,408 | 67.7% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 94,083 | 60,599 | 64.4% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 73,013 | 49,179 | 67.4% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 54,476 | 35,844 | 65.8% |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 17,280 | 12,148 | 70.3% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 62,810 | 40,656 | 64.7% |
| Anhysbys | 349 | 253 | 72.5% |
| CYFANSWM | 503,773 | 335,471 | 66.6% |

| Bwrdd Iechyd | Cymwys – 50 - 64 | Profwyd o fewn 5.5 mlynedd | % Y cwmpas o fewn 5.5 mlynedd |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 57,791 | 41,464 | 71.7% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 69,569 | 49,619 | 71.3% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 43,045 | 30,637 | 71.2% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 42,230 | 29,589 | 70.1% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 39,693 | 27,845 | 70.2% |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 14,353 | 10,586 | 73.8% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 35,714 | 24,966 | 69.9% |
| Anhysbys | 111 | 83 | 74.8% |
| CYFANSWM | 302,506 | 214,789 | 71.0% |




Ffigur 3: Cwmpas sgrinio serfigol cyfunol y grŵp oedran targed (unigolion 25-64 oed) yn ôl bwrdd iechyd

Mae hyn yn dangos cwmpas a nodwyd yr unigolion hynny a oedd yn gymwys am sgrinio serfigol ar 31 Mawrth 2023, yn ôl y nifer a'r gyfran gyda phrawf digonol o fewn y 3.5 neu 5.5 mlynedd diwethaf.

# Cyfranogwyr a wahoddwyd

## Diffiniad a safon

Yn gyffredinol, diffinnir nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio fel cyfran yr unigolion a wahoddwyd sy'n mynychu sgrinio o fewn cyfnod penodol yn dilyn gwahoddiad. Ni ellir mesur yn union faint o bobl sy'n manteisio ar wahoddiadau i sgrinio serfigol gan y gallai rhai profion a gynhelir yn ystod y flwyddyn sgrinio (1 Ebrill i 31 Mawrth) ddeillio o wahoddiadau a anfonwyd yn y flwyddyn sgrinio flaenorol neu rai a drefnwyd yn y flwyddyn ganlynol. Ar hyn o bryd nid oes safon ar gyfer 'y nifer sy'n manteisio ar wahoddiad' o fewn Sgrinio Serfigol yng Nghymru a Lloegr ac felly mae'r cwmpas wedi'i gyflwyno.

## Y canlyniad ar gyfer 2022-2023

Ar lefel Cymru gyfan, gwahoddwyd 228,143 o gyfranogwyr, rhwng 25 a 64 oed.

Gwahoddwyd cyfanswm o 248,226 o bob oed

## Tuedd tair blynedd

Gwahoddwyd 228,143 o gyfranogwyr, rhwng 25 a 64 oed, yn 2022-23.

Gwahoddwyd 295,538 o gyfranogwyr, rhwng 25 a 64 oed, yn 2021-22.

Gwahoddwyd 204,406 o gyfranogwyr, rhwng 25 a 64 oed, yn 2020-21.

## Sylwadau

Gwahoddir unigolion cymwys i gael eu prawf sgrinio cyntaf rhwng 24 mlynedd ac 8 mis a 24 mlynedd a 9 mis oed. Mae hyn yn sicrhau y byddant wedi cael y cyfle i fynychu sgrinio erbyn eu pen-blwydd yn 25 oed. Yn ogystal, bydd rhai unigolion o dan 25 oed yn cael eu gwahodd oherwydd canfyddiadau damweiniol o newidiadau i gelloedd, sydd wedi golygu bod angen profion sgrinio dilynol. Mae nifer y gwahoddiadau i sgrinio serfigol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn oherwydd bod unigolion yn cael eu gwahodd ar wahanol gylchoedd sgrinio yn dibynnu ar eu hoedran, dyddiad eu prawf diwethaf, a'u canlyniadau sgrinio blaenorol.

Tabl 3: Unigolion a wahoddwyd yn ôl grŵp oedran a bwrdd iechyd

| Bwrdd Iechyd | O dan 25 | 25-49 | 50-64 | 65+ | Pob oed |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 3,484 | 33,181 | 11,450 | 352 | 48,467 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 3,510 | 34,485 | 13,886 | 366 | 52,247 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 3,800 | 30,899 | 8,245 | 214 | 43,158 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 2,715 | 24,546 | 8,379 | 232 | 35,872 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 1,912 | 18,316 | 7,829 | 209 | 28,266 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 596 | 5,512 | 2,775 | 61 | 8,944 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 2,422 | 21,220 | 6,936 | 200 | 30,778 |
| Bwrdd Iechyd Anhysbys | 45 | 382 | 67 | 0 | 494 |
| Cymru Gyfan | 18,484 | 168,541 | 59,567 | 1,634 | 248,226 |

# Cyfranogwyr a gafodd eu profi

## Diffiniad a safon

Mae pob sampl bellach yn cael ei brofi yn labordy Parc Magden Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Llantrisant. Os nad oes hrHPV wedi'i ganfod mewn sampl, bydd labordy Magden Park yn cyhoeddi canlyniad. Ni chaiff y celloedd yn y sampl eu harchwilio. Os canfyddir hrHPV mewn sampl, gwneir sleid a chaiff y celloedd eu harchwilio i lawr microsgop gan Sgrinwyr Cytoleg. Os oes unrhyw newidiadau i gelloedd, anfonir y sleid at un o rwydwaith clinigol ffurfiol o Batholegwyr Ymgynghorol neu Wyddonwyr Biofeddygol Ymgynghorol ledled Cymru i roi adroddiad yn ei chylch.

Nid oes safon ar gyfer yr adran hon.

## Y canlyniad ar gyfer 2022-2023

Ar lefel Cymru gyfan, profwyd 163,461 o gyfranogwyr, rhwng 25 a 64 oed.

Profwyd cyfanswm o 170,892 o bob oed

## Tuedd tair blynedd

Profwyd 163,461 o gyfranogwyr, rhwng 25 a 64 oed, yn 2022-23;

Profwyd 189,876 o gyfranogwyr, rhwng 25 a 64 oed, yn 2021-22;


Profwyd 120,418 o gyfranogwyr, rhwng 25 a 64 oed, yn 2020-21.

## Sylwadau

Profwyd mwy o gyfranogwyr yn 2021-22 oherwydd gwahoddwyd mwy o gyfranogwyr i gael eu profi. Mae nifer y gwahoddiadau i sgrinio serfigol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn oherwydd bod unigolion yn cael eu gwahodd ar wahanol gylchoedd sgrinio yn dibynnu ar eu hoedran, dyddiad eu prawf diwethaf, a'u canlyniadau sgrinio blaenorol.

Tabl 4: Unigolion a gafodd eu sgrinio yn ôl grŵp oedran a bwrdd iechyd

| Bwrdd Iechyd | O dan 25 | 25-49 | 50-64 | 65+ | Pob oed |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 1,333 | 24,943 | 7,685 | 151 | 34,112 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 1,234 | 24,934 | 9,144 | 195 | 35,507 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 1,197 | 21,543 | 5,571 | 165 | 28,476 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 1,021 | 18,403 | 5,800 | 154 | 25,378 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 600 | 13,558 | 5,432 | 140 | 19,730 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 209 | 4,491 | 1,991 | 64 | 6,755 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 815 | 15,067 | 4,598 | 134 | 20,614 |
| Bwrdd Iechyd Anhysbys | 19 | 265 | 36 | - | 320 |
| Cymru Gyfan | 6,428 | 123,204 | 40,257 | 1,003 | 170,892 |




Ffigur 4: Nifer yr unigolion (25-64 oed) a wahoddwyd ac a brofwyd bob blwyddyn

Mae'r gostyngiad yn nifer yr unigolion a wahoddwyd yn ystod 2017-18 oherwydd y newidiadau oedran ac amlder a weithredwyd ym mis Medi 2013 (a ddisgrifir yn adran 1.3), lle codwyd yr oedran ar gyfer anfon y gwahoddiad sgrinio cyntaf o 20 i 25 a newidiwyd amlder y gwahoddiad i unigolion 50-64 oed o 3 blynedd i 5 mlynedd. Mae'r cynnydd a welwyd yn 2018-19 yn cynnwys unigolion 25 oed yn cael eu gwahodd am y tro cyntaf, a'r unigolion hynny a oedd yn 50 oed neu'n hŷn yn 2013 sydd bellach yn cael eu gwahodd yn ôl ar ôl 5 mlynedd.
Mae'r gostyngiad yn 2020-2021 o ganlyniad i'r oedi dros dro cyn anfon gwahoddiadau at gyfranogwyr ar gyfer sgrinio serfigol oherwydd pandemig Covid-19 ym mis Mawrth 2020. Ailddechreuwyd anfon y gwahoddiadau ym mis Mehefin 2020. Roedd Sgrinio Serfigol Cymru wedi dod dros effaith pandemig Covid-19 erbyn mis Rhagfyr 2021

# Amseroedd cyhoeddi canlyniadau samplau sgrinio yn ôl bwrdd iechyd

## Diffiniad a safon

Safon Iechyd Cyhoeddus Cymru yw bod 95% o unigolion yn cael eu canlyniadau o fewn 4 wythnos (28 diwrnod calendr) ar ôl cymryd y sampl sgrinio.

## Y canlyniad ar gyfer 2022-2023

Darparwyd 91.9% o'r canlyniadau o fewn pedair wythnos

## Tuedd tair blynedd

Darparwyd 91.9% o'r canlyniadau o fewn pedair wythnos yn 2022-23;

Darparwyd 92.2% o'r canlyniadau o fewn pedair wythnos yn 2021-22;


Darparwyd 95.8% o'r canlyniadau o fewn pedair wythnos yn 2020-21.

## Sylwadau

Cyflwyno system TG newydd a llwyfannau dadansoddol newydd oedd y prif resymau pam na chyflawnwyd y safon o ddarparu canlyniadau sgrinio i 95% o unigolion o fewn pedair wythnos i ddyddiad y sampl.

Tabl 5: Amser o'r dyddiad y cymerwyd y sampl i anfon llythyr y canlyniad, yn ôl bwrdd iechyd

| Bwrdd Iechyd | Llai na neu'n hafal i 2 wythnos | >2 wythnos hyd at 4 wythnos | >4 wythnos hyd at 6 wythnos | >6 wythnos | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 17,026 | 14,260 | 1,543 | 997 | 33,826 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 14,077 | 17,952 | 1,997 | 1,357 | 35,383 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 14,994 | 11,323 | 1,223 | 720 | 28,260 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 12,420 | 10,754 | 1,336 | 485 | 24,995 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 9,368 | 8,518 | 1,082 | 552 | 19,520 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 2,994 | 3,125 | 412 | 143 | 6,674 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 9,855 | 8,928 | 1,167 | 610 | 20,560% |
| Bwrdd Iechyd Anhysbys | 1,270 | 1,411 | 223 | 142 | 3,046 |
| CYMRU | 82,004 | 76,271 | 8,983 | 5,006 | 172,264 |




Ffigur 5: Amser o'r dyddiad y cymerwyd y sampl i anfon llythyr y canlyniad, yn ôl bwrdd iechyd

# Samplau a adroddwyd gan labordy sgrinio serfigol

## Diffiniad a safon

Dim diffiniad na safon

Mae'r samplau a adroddwyd yn cynnwys yr holl samplau a awdurdodwyd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.  Nid yw samplau a wrthodwyd wedi'u cynnwys.

## Y canlyniad ar gyfer 2022-2023

Ar lefel Cymru gyfan, adroddwyd am gyfanswm o 173,494 o samplau gan y labordy.

## Tuedd tair blynedd

Adroddwyd am 173,494 o samplau yn 2022-23;

Adroddwyd am 194,316 o samplau yn 2021-22;

Adroddwyd am 117,504 o samplau yn 2020-21;

## Sylwadau

Mae nifer y gwahoddiadau i sgrinio serfigol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn oherwydd bod unigolion yn cael eu gwahodd ar wahanol gylchoedd sgrinio yn dibynnu ar eu hoedran, dyddiad eu prawf diwethaf, a'u canlyniadau sgrinio blaenorol. Felly mae nifer y samplau yr adroddir amdanynt yn amrywio yn unol â hynny.

Tabl 6: Nifer y samplau sgrinio serfigol yr adroddwyd amdanynt yn ôl ffynhonnell y prawf

| Cymru Gyfan | Meddyg Teulu | Clinigau Iechyd Rhywiol Integredig | Ysbyty'r GIG | Heb ei Nodi | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymru Gyfan | 160,701 | 3,980 | 8,049 | 764 | 173,494 |

Tabl 7: Nifer y samplau sgrinio serfigol yr adroddwyd amdanynt gan y bwrdd iechyd y preswylir ynddo a ffynhonnell y prawf

| Bwrdd Iechyd | Meddyg Teulu | Clinigau Iechyd Rhywiol Integredig | Ysbyty'r GIG | Heb ei Nodi | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 30,660 | 1,813 | 1,690 | 107 | 34,270 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 34,202 | 467 | 1,136 | 2 | 35,807 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 27,944 | 169 | 987 | 136 | 29,236 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 22,687 | 696 | 1,792 | 218 | 25,393 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 17,986 | 693 | 1,242 | 2 | 19,923 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 6,465 | 27 | 185 | 15 | 6,692 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 19,490 | 72 | 961 | 280 | 20,803 |
| Bwrdd Iechyd Anhysbys | 1,267 | 43 | 56 | 4 | 1,370 |
| Cymru Gyfan | 160,701 | 3,980 | 8,049 | 764 | 173,494 |

Tabl 8: Canran y samplau sgrinio serfigol yr adroddwyd amdanynt yn ôl y bwrdd iechyd y preswylir ynddo a ffynhonnell y prawf

| Bwrdd Iechyd | Meddyg Teulu | Clinigau Iechyd Rhywiol Integredig | Ysbyty'r GIG | Heb ei Nodi |
|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 89.5% | 5.3% | 4.9% | 0.3% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 95.5% | 1.3% | 3.2% | 0.0% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 95.6% | 0.6% | 3.4% | 0.5% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 89.3% | 2.7% | 7.1% | 0.9% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 90.3% | 3.5% | 6.2% | 0.0% |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 96.6% | 0.4% | 2.8% | 0.2% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 93.7% | 0.3% | 4.6% | 1.3% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 89.5% | 5.3% | 4.9% | 0.3% |
| Cymru Gyfan | 92.6% | 2.3% | 4.6% | 0.4% |

O'r 173,494 o samplau yr adroddwyd amdanynt, nid oedd angen prawf cytoleg mewn 152,109 oherwydd na chanfuwyd HPV risg uchel. Cynhaliwyd profion cytoleg ar 21,385 o samplau.

### Tabl 9: Samplau cytoleg annigonol yr adroddwyd amdanynt gan labordy sgrinio serfigol

| Cymru Gyfan | Meddyg Teulu | Clinigau Iechyd Rhywiol Integredig | Ysbyty'r GIG | Heb ei Nodi | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y profion ceg y groth | 18,657 | 581 | 1,905 | 242 | 21,385 |
| Nifer annigonol | 430 | 10 | 66 | 10 | 516 |
| % annigonol | 2.3% | 1.7% | 3.5% | 4.1% | 2.4% |

O'r 152,109 o samplau lle nad oedd angen prawf cytoleg, cyfeiriwyd at 59 o samplau fel rhai oedd â 'chanlyniad hrHPV heb fod ar gael/yn annibynadwy (HPVU)'. Os ychwanegir y canlyniadau hyn at y canlyniadau 'cytoleg annigonol', byddai hyn yn rhoi cyfradd gyfunol 'annigonol' gyffredinol o 0.3%.

### Tabl 10: Samplau cytoleg gradd uchel yr adroddwyd amdanynt

| Cymru Gyfan | Meddyg Teulu | Clinigau Iechyd Rhywiol Integredig | Ysbyty'r GIG | Heb ei Nodi | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer digonol | 160,271 | 3,970 | 7,983 | 754 | 172,978 |
| Nifer gradd uchel | 1,047 | 43 | 200 | 24 | 1,314 |
| % gradd uchel | 0.7% | 1.1% | 2.5% | 3.2% | 0.8% |

Mae gradd uchel yn cynnwys canlyniadau a adroddwyd fel dyscariosis gradd uchel (cymedrol neu ddifrifol), dyscariosis gradd uchel (carsinoma cennog ymledol amheus), neoplasia chwarennol o fath endoserfigol amheus a neoplasia chwarennol o darddiad nad yw'n serfigol. Cyfrifir y gyfran o holl ganlyniadau'r profion sgrinio serfigol.

Tabl 11: Nifer y samplau cytoleg digonol yr adroddwyd amdanynt yn ôl canlyniad y prawf a'r grŵp oedran

| Canlyniad | 25-49 oed | 50-64 oed | Pob oed |
|---|---|---|---|
| Negatif | 10,449 | 2,838 | 14,256 |
| Newid Ffiniol mewn celloedd cennog | 2,196 | 507 | 2,908 |
| Newid Ffiniol mewn celloedd endoserfigol | 19 | 6 | 26 |
| Dyscariosis Gradd Isel | 1,793 | 390 | 2,365 |
| Dyscariosis Gradd Uchel (Cymedrol) | 373 | 50 | 441 |
| Dyscariosis Gradd Uchel (Difrifol) | 659 | 100 | 790 |
| Dyscariosis Gradd Uchel (?carsinoma cennog ymledol) | 21 | 14 | 36 |
| ?Neoplasia chwarennol o fath endoserfigol | 38 | 6 | 45 |
| ?Neoplasia chwarennol o darddiad heb fod yn serfigol | 1 | 1 | 2 |
| Dim cytoleg | 109,467 | 36,646 | 152,109 |
| Cymru Gyfan | 125,016 | 40,558 | 172,978 |

Mae pob oedran yn cynnwys cyfranogwyr sydd y tu allan i'r ystod oedran gymwys.

Tabl 12: Nifer a chanlyniad samplau digonol yr adroddwyd amdanynt

| Canlyniad | HPV Risg Uchel wedi'i ganfod | HPV Risg Uchel heb ei ganfod | HPV heb fod ar gael / annibynadwy | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| Negatif | 14,254 | 1 | 1 | 14,256 |
| Newid Ffiniol mewn celloedd cennog | 2,908 | 0 | 0 | 2,908 |
| Newid Ffiniol mewn celloedd endoserfigol | 26 | 0 | 0 | 26 |
| Dyscariosis Gradd Isel | 2,364 | 0 | 1 | 2,365 |
| Dyscariosis Gradd Uchel (Cymedrol) | 441 | 0 | 0 | 441 |
| Dyscariosis Gradd Uchel (Difrifol) | 790 | 0 | 0 | 790 |
| Dyscariosis Gradd Uchel (?carsinoma cennog ymledol) | 36 | 0 | 0 | 36 |
| ?Neoplasia chwarennol o fath endoserfigol | 45 | 0 | 0 | 45 |
| ?Neoplasia chwarennol o darddiad heb fod yn serfigol | 2 | 0 | 0 | 2 |
| Dim cytoleg | 0 | 152,050 | 59 | 152,109 |
| Cymru Gyfan | 20,866 | 152,051 | 61 | 172,978 |

# APV, PPV ac RV

## Diffiniad a safon

Y gwerth rhagfynegol positif (PPV) yw cyfran y rhai y credir bod ganddynt newidiadau celloedd gradd uchel ar cytoleg, sydd wedyn yn mynd ymlaen i fod ag annormaledd gradd uchel profedig.

Mae PPV cytoleg yn sicrhau cydberthynas rhwng barn am cytoleg gradd uchel a chanlyniad histoleg. Mae'n cyfrifo cyfran yr achosion lle mae biopsi digonol, yn dilyn prawf sgrinio a gofnodwyd fel dyscariosis gradd uchel (cymedrol) neu waeth, yn cynhyrchu diagnosis histolegol o CIN2 neu waeth. Mae hyn yn eithrio unigolion a atgyfeiriwyd at golposgopi yn dilyn canlyniad prawf o neoplasia chwarennol heb fod yn serfigol.

Mae'r Gwerth Rhagfynegol Annormal (APV) yn cyfrifo canran y samplau a gofnodwyd fel newidiadau ffiniol neu ddyscariosis gradd isel a arweiniodd at atgyfeiriad a diagnosis histolegol dilynol o CIN2 neu waeth. Ar gyfer cyfnod yr adroddiad hwn, mae hyn hefyd yn cynnwys samplau a gofnodwyd fel rhai sy'n dangos 'newid ffiniol mewn celloedd endoserfigol'.

Diffinnir y gwerth atgyfeirio (RV) fel nifer yr unigolion a atgyfeirir at golposgopi ar gyfer pob un CIN2 neu ganlyniad histoleg gwaeth a ganfyddir. Mae hyn yn eithrio unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio at golposgopi yn dilyn canlyniad prawf annigonol neu a amheir o neoplasia chwarennol (heb fod yn serfigol).

Cyfrifir cyfraddau APV, PPV ac RV flwyddyn ar ôl y profion

## Y canlyniad ar gyfer 2021-2022

Ar lefel Cymru gyfan, PPV = 83.9; APV = 21.9; RV = 3.3

## Tuedd tair blynedd

Yn 2021-2022, ar lefel Cymru gyfan, PPV = 83.9; APV = 21.9; RV = 3.3

Yn 2020-2021, ar lefel Cymru gyfan, PPV = 86.9; APV = 22.0; RV = 3.1

Yn 2019-2020, ar lefel Cymru gyfan, PPV = 85.1; APV = 22.6; RV = 2.7

## Sylwadau

Mae canserau nad ydynt yn ganserau ceg y groth wedi'u heithrio o gyfrifiadau PPV. O 2012-13 mae'r diffiniad ar gyfer cyfrifo PPV wedi newid, mae'r enwadur bellach yn cynnwys – colposgopi dim annormaledd wedi'i ganfod (NAD) heb gymryd biopsi.

Mae PPV colposgopi yn sicrhau cydberthynas rhwng barn am golposgopi gradd uchel a chanlyniad histoleg.

Tabl 13: Canlyniad i fenywod a atgyfeiriwyd rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 yn dilyn canlyniad annigonol, negatif neu radd isel

| Canlyniad | CYMRU GYFAN | Canran |
|---|---|---|
| Canser Ceg y Groth | 9 | 0.1% |
| CGIN | 16 | 0.3% |
| CIN Gradd Uchel | 1,138 | 18.1% |
| CIN1 | 1,434 | 22.8% |
| Dim Annormaledd wedi'i Ganfod | 1,351 | 21.4% |
| Biopsi Annigonol | 121 | 1.9% |
| Dim Biopsi wedi'i Gymryd | 2,232 | 35.4% |
| Canser nad yw'n Ganser Ceg y Groth | 0 | 0.0% |
| Canlyniad anhysbys | 0 | 0.0% |
| CYFANSWM | 6,301 | 100.0% |

Tabl 14: Canlyniad i fenywod a atgyfeiriwyd rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 yn dilyn canlyniad gradd uchel - ac eithrio menywod a atgyfeiriwyd gyda chanlyniad prawf o ?neoplasia chwarennol (heb fod yn serfigol)

| Canlyniad | CYMRU GYFAN | Canran |
|---|---|---|
| Canser Ceg y Groth | 76 | 5.6% |
| CGIN | 51 | 3.8% |
| CIN Gradd Uchel | 1,001 | 74.0% |
| CIN1 | 113 | 8.4% |
| Dim Annormaledd wedi'i Ganfod | 72 | 5.3% |
| Biopsi Annigonol | 8 | 0.6% |
| Dim Biopsi wedi'i Gymryd | 31 | 2.3% |
| Canser nad yw'n Ganser Ceg y Groth | 1 | 0.1% |
| Canlyniad anhysbys | 0 | 0.0% |
| CYFANSWM | 1,353 | 100.0% |

Tabl 15: Canlyniad i fenywod a atgyfeiriwyd yn uniongyrchol rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 yn dilyn canlyniad gradd uchel

| | Gwerth Rhagfynegol Positif (PPV)% | Gwerth Rhagfynegol Annormal (APV)% | Gwerth Atgyfeirio (RV) |
|---|---|---|---|
| Cymru Gyfan | 83.9% | 21.9% | 3.3 |

# Amseroedd y mae labordy patholeg yn eu cymryd i gwblhau eu prosesau

## Diffiniad a safon

Nod Iechyd Cyhoeddus Cymru yw adrodd ar ganlyniadau sgrinio serfigol o fewn 4-6 wythnos

## Y canlyniad ar gyfer 2022-2023

Ar lefel Cymru gyfan, rhoddwyd adroddiad am 68.8% o samplau o fewn pythefnos.

## Tuedd tair blynedd

Adroddwyd am 68.8% o samplau o fewn pythefnos yn ystod 2022-2023

Adroddwyd am 77.4% o samplau o fewn pythefnos yn ystod 2021-2022

Adroddwyd am 85.6% o samplau o fewn pythefnos yn ystod 2020-2021

## Sylwadau

Mae'n debyg bod y gostyngiad yng nghanran y samplau yr adroddwyd amdanynt o fewn pythefnos ers 2021 yn adlewyrchu adferiad mewn gwasanaethau yn dilyn y tarfu a fu yn sgil COVID-19 yn ogystal ag effeithiau gweithredu system TG newydd a llwyfannau dadansoddol newydd yn ystod 2022.

### Tabl 16: Amseroedd y mae labordy patholeg yn eu cymryd i gwblhau eu prosesau, o ddyddiad derbyn y sampl, hyd at ddyddiad awdurdodi'r canlyniad gyntaf

| Cymru Gyfan | Llai na neu'n hafal i 2 wythnos | >2 wythnos hyd at 4 wythnos | >4 wythnos hyd at 6 wythnos | >6 wythnos | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfansymiau | 119,432 | 48,365 | 4,295 | 1,402 | 173,494 |
| % Cronnol | 68.8% | 96.7% | 99.2% | 100.0% | 100.0% |

# Gweithgaredd colposgopi

## Diffiniad

Archwiliad o geg y groth yw colposgopi gan ddefnyddio archwiliad gweledol gydag asid asetig a chwyddiad, a chyflawnir hyn mewn Gofal Eilaidd. Mae cyfranogwyr yn cael eu hatgyfeirio gan Sgrinio Serfigol Cymru at golposgopi os nodir newidiadau mewn celloedd neu os yw haint hrHPV yn barhaus. Gallai cyfranogwyr hefyd gael eu cyfeirio at Golposgopi o ofal sylfaenol neu eilaidd gydag symptomau, os oedd ceg y groth yn ymddangos yn annormal, neu lle'r oedd anawsterau wrth gael sampl mewn gofal sylfaenol.

Nid oes unrhyw safonau ar gyfer yr adran hon.

## Y canlyniad ar gyfer 2022-2023

Ar lefel Cymru gyfan, gwnaed cyfanswm o 11,300 o atgyfeiriadau at golposgopi yn ystod 2022-2023.

Gwelwyd 9,185 o gleifion newydd, 67.7% wedi cael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol gan Sgrinio Serfigol Cymru a 32.3% am resymau clinigol, e.e. symptomau neu geg y groth yn ymddangos yn annormal.

## Tuedd tair blynedd

Gwelwyd 9,185 o gleifion newydd mewn clinigau colposgopi yng Nghymru yn 2022-23

Gwelwyd 9,641 o gleifion newydd mewn clinigau colposgopi yng Nghymru yn 2021-22

Gwelwyd 6,622 o gleifion newydd mewn clinigau colposgopi yng Nghymru yn 2020-21

## Sylwadau

Mae’r cynnydd sydyn a welwyd rhwng 2020–21 a 2021–22 (cynnydd o tua 45%), sy'n debygol o fod yn adlewyrchu adferiad mewn gwasanaethau yn dilyn y tarfu a fu yn ystod COVID-19, wedi parhau i 2022-2023.

Tabl 17: Nifer yr atgyfeiriadau colposgopi yn ôl ffynhonnell yr atgyfeiriad a chlinig colposgopi

| Clinig Colposgopi | Atgyfeiriad Uniongyrchol SSC (CSW) | Atgyfeiriad Arall | CYFANSWM | % Atgyfeiriadau Uniongyrchol SSC (CSW) | % Atgyfeiriadau Eraill |
|---|---|---|---|---|---|
| Aberhonddu | 117 | 4 | 121 | 96.7% | 3.3% |
| Bronglais | 117 | 50 | 167 | 70.1% | 29.9% |
| Caerdydd a'r Fro | 1,314 | 818 | 2,132 | 61.6% | 38.4% |
| Glan Clwyd | 425 | 44 | 469 | 90.6% | 9.4% |
| Castell-nedd Port Talbot | 850 | 195 | 1,045 | 81.3% | 18.7% |
| Nevill Hall | 423 | 164 | 587 | 72.1% | 27.9% |
| Y Drenewydd | 138 | 41 | 179 | 77.1% | 22.9% |
| Ysbyty'r Tywysog Siarl | 361 | 529 | 890 | 40.6% | 59.4% |
| Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 353 | 496 | 849 | 41.6% | 58.4% |
| Singleton | 625 | 314 | 939 | 66.6% | 33.4% |
| Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru | 491 | 248 | 739 | 66.4% | 33.6% |
| Llwyn Helyg | 193 | 227 | 420 | 46.0% | 54.0% |
| Wrecsam | 566 | 119 | 685 | 82.6% | 17.4% |
| Ysbyty Gwynedd | 442 | 208 | 650 | 68.0% | 32.0% |
| Ysbyty Ystrad Fawr | 1,120 | 308 | 1,428 | 78.4% | 21.6% |
| Cymru Gyfan | 7,535 | 3,765 | 11,300 | 66.7% | 33.3% |

Mae'r atgyfeiriadau eraill nad ydynt yn cael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol o Sgrinio Serfigol Cymru (CSW) yn gymysgedd o unigolion a atgyfeiriwyd o ofal sylfaenol neu ofal eilaidd gyda symptomau neu oherwydd bod ceg y groth yn edrych yn annormal, unigolion sy'n symud i Gymru gyda newidiadau diweddar i gelloedd ar cytoleg neu'r rhai lle'r oedd anawsterau wrth gael sampl mewn gofal sylfaenol.

Tabl 18: Nifer y cleifion newydd a welwyd mewn clinigau colposgopi yn ôl canlyniad prawf atgyfeirio

| Clinig Colposgopi | Gradd Isel | Gradd Uchel | Cytoleg Negatif HPV Positif | Dim Prawf Ceg y Groth Annormal | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Aberhonddu | 55 | 15 | 19 | 2 | 91 |
| Bronglais | 59 | 14 | 22 | 43 | 138 |
| Caerdydd a'r Fro | 732 | 168 | 234 | 806 | 1,940 |
| Glan Clwyd | 257 | 51 | 80 | 16 | 404 |
| Castell-nedd Port Talbot | 451 | 121 | 139 | 136 | 847 |
| Nevill Hall | 210 | 38 | 76 | 129 | 453 |
| Y Drenewydd | 71 | 27 | 18 | 34 | 150 |
| Ysbyty'r Tywysog Siarl | 224 | 61 | 76 | 393 | 754 |
| Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 225 | 43 | 64 | 355 | 687 |
| Singleton | 316 | 99 | 86 | 210 | 711 |
| Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru | 227 | 76 | 98 | 134 | 535 |
| Llwyn Helyg | 135 | 32 | 54 | 94 | 315 |
| Wrecsam | 231 | 81 | 54 | 99 | 465 |
| Ysbyty Gwynedd | 281 | 84 | 89 | 84 | 538 |
| Ysbyty Ystrad Fawr | 611 | 145 | 169 | 232 | 1,157 |
| **Cymru Gyfan** | **4,085** | **1,055** | **1,278** | **2,767** | **9,185** |
| **% CYMRU GYFAN** | **44.5%** | **11.5%** | **13.9%** | **30.1%** | **100.0%** |

Mae atgyfeiriadau gradd isel yn cynnwys newid ffiniol mewn celloedd cennog a dyscariosis gradd isel

Mae atgyfeiriadau gradd uchel yn cynnwys newidiadau ffiniol mewn celloedd endoserfigol, dyscariosis gradd uchel (cymedrol a difrifol), dyscariosis gradd uchel (carsinoma cennog ymledol amheus), neoplasia chwarennol o fath endoserfigol amheus a neoplasia chwarennol o darddiad heb fod yn serfigol amheus.

Mae Tabl 18 yn dangos atgyfeiriadau ar gyfer colposgopi yn dilyn canlyniad cytoleg negatif (normal).

Mae'r unigolion hyn yn cael eu hatgyfeirio naill ai oherwydd hrHPV parhaus yn eu sampl, neu oherwydd clefyd gradd uchel blaenorol ('prawf iachâd') a hrHPV cyfredol. Oherwydd parhad hrHPV neu eu hanes blaenorol, maent mewn mwy o berygl o glefyd gradd uchel.

## Amseroedd aros colposgopi

### Diffiniad a safon

Cynigir apwyntiad i 90% o'r holl atgyfeiriadau newydd o fewn 8 wythnos

Cynigir apwyntiad i 90% o atgyfeiriadau gradd uchel o fewn 4 wythnos

### Y canlyniad ar gyfer 2022-2023

Ar lefel Cymru gyfan, cynigiwyd apwyntiad i 87.3% o'r holl atgyfeiriadau o fewn wyth wythnos;

Cynigiwyd apwyntiad o fewn pedair wythnos i 92.7% o gleifion a atgyfeiriwyd gyda chanlyniad o ddyscariosis gradd uchel neu waeth.

### Tuedd tair blynedd

Cynigiwyd apwyntiad i 87.3% o'r holl atgyfeiriadau o fewn wyth wythnos yn ystod 2022-2023

Cynigiwyd apwyntiad i 92.7% o gleifion a atgyfeiriwyd gyda chanlyniad o ddyscariosis gradd uchel neu waeth o fewn pedair wythnos yn ystod 2022-2023.

Cynigiwyd apwyntiad i 85.2% o'r holl atgyfeiriadau o fewn wyth wythnos yn ystod 2021-2022

Cynigiwyd apwyntiad i 85.7% o gleifion a atgyfeiriwyd gyda chanlyniad o ddyscariosis gradd uchel neu waeth o fewn pedair wythnos yn ystod 2021-2022.

Cynigiwyd apwyntiad i 92.7% o'r holl atgyfeiriadau o fewn wyth wythnos yn ystod 2020-2021

Cynigiwyd apwyntiad i 93.3% o gleifion a atgyfeiriwyd gyda chanlyniad o ddyscariosis gradd uchel neu waeth o fewn pedair wythnos yn ystod 2020-2021.


## Sylwadau

Mae'r tablau a'r ffigurau isod yn dangos yr amser a gymerwyd o dderbyn atgyfeiriad gan y bwrdd iechyd i'r apwyntiad cyntaf a gynigiwyd gan y bwrdd iechyd, heb gynnwys oediadau a achoswyd gan gleifion.


## Tabl 19: Amseroedd aros yn ôl bwrdd iechyd a math o atgyfeiriad

| Bwrdd Iechyd | < 8 wythnos | > 8 wythnos | Cyfanswm | % 8 wythnos |
|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 1,983 | 55 | 2,038 | 97.3 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 931 | 771 | 1,702 | 54.7 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 1,938 | 368 | 2,306 | 84.0 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 1,715 | 32 | 1,747 | 98.2 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 1,096 | 122 | 1,218 | 90.0 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 277 | 6 | 283 | 97.9 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 1,843 | 66 | 1,909 | 96.5 |
| Cymru Gyfan | 9,783 | 1,420 | 11,203 | 87.3 |
| % | 87.3% | 12.7% | 100.0% | |

| Bwrdd Iechyd | < 4 wythnos | > 4 wythnos | Cyfanswm | % 4 wythnos |
|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 232 | 10 | 242 | 95.9 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 199 | 53 | 252 | 79.0 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 197 | 3 | 200 | 98.5 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 119 | 2 | 121 | 98.3 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 130 | 15 | 145 | 89.7 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 44 | 1 | 45 | 97.8 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 243 | 8 | 251 | 96.8 |
| Cymru Gyfan | 1,164 | 92 | 1,256 | 92.7 |
| % | 92.7% | 7.3% | 100.0% | |




Ffigur 6: Canran yr holl atgyfeiriadau newydd y cynigiwyd apwyntiad iddynt o fewn 8 wythnos yn ôl bwrdd iechyd (heb gynnwys oediadau a achoswyd gan gleifion)




Ffigur 7: Canran yr holl atgyfeiriadau newydd y cynigiwyd apwyntiad iddynt o fewn 4 wythnos yn ôl bwrdd iechyd (heb gynnwys oediadau a achoswyd gan gleifion)

# Cyfanswm yr apwyntiadau colposgopi a fynychwyd

## Diffiniad a safon

Nid oes safon ar gyfer yr adran hon.

## Y canlyniad ar gyfer 2022-2023

Ar lefel Cymru gyfan, cofnodwyd 17,179 o ymweliadau a fynychwyd yn ystod 2022-23

## Tuedd tair blynedd

Cofnodwyd 17,179 o ymweliadau a fynychwyd yn ystod 2022-23

Cofnodwyd 16,736 o ymweliadau a fynychwyd yn ystod 2021-22

Cofnodwyd 12,623 o ymweliadau a fynychwyd yn ystod 2020-21

## Sylwadau

Mae'r tablau isod yn dangos nifer y cyfranogwyr a fynychodd apwyntiadau colposgopi yn ôl math o ymweliad a bwrdd iechyd

Tabl 20: Cyfanswm yr apwyntiadau colposgopi a fynychwyd yn ôl math o ymweliad a bwrdd iechyd

| Bwrdd Iechyd | Asesiad colposgopig | Dewis a thrin | Triniaeth wedi'i chynllunio | Camau dilynol | Heb ei Nodi | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 1,897 | 129 | 243 | 720 | 2 | 2,991 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 1,893 | 43 | 521 | 312 | 67 | 2,836 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 2,383 | 60 | 262 | 315 | 2 | 3,022 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 1,542 | 62 | 329 | 609 | 18 | 2,560 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 1,099 | 30 | 275 | 817 | 19 | 2,240 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 256 | 21 | 41 | 97 | 2 | 417 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 1,714 | 31 | 494 | 871 | 3 | 3,113 |
| CYMRU | 10,784 | 376 | 2,165 | 3,741 | 113 | 17,179 |
| % CYMRU GYFAN | 62.8% | 2.2% | 12.6% | 21.8 % | 0.7% | 100.0% |

Cofnodwyd 17,179 o ymweliadau a fynychwyd yn ystod 2022-23. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain ar gyfer 'asesiad colposgopig'. Cofnodwyd 376 o ymweliadau fel 'dewis a thrin' (lle cyflawnir triniaeth yn ystod ymweliad cyntaf ar gyfer colposgopi), er bod amrywiad yn yr arfer hwn ledled Cymru.

# Cleifion newydd a welwyd a'r canlyniad gwaethaf o ran histoleg

## Diffiniad a safon

Dim diffiniad na safon

## Y canlyniad ar gyfer 2022-2023

Ar lefel Cymru gyfan, cafodd 1 o bob 23 o unigolion a gafodd eu sgrinio yn ystod y flwyddyn eu hatgyfeirio'n uniongyrchol ar gyfer colposgopi gan Sgrinio Serfigol Cymru. O'r rhain, roedd gan 1 o bob 148 o unigolion (llai nag 1%) ganser.

## Tuedd tair blynedd

Cafodd 1 o bob 23 o unigolion a sgriniwyd yn ystod y flwyddyn eu hatgyfeirio'n uniongyrchol am golposgopi gan Sgrinio Serfigol Cymru. O'r rhain, roedd gan 1 o bob 148 o unigolion (llai nag 1%) ganser yn ystod 2022-2023.

Cafodd 1 o bob 26 o unigolion a sgriniwyd yn ystod y flwyddyn eu hatgyfeirio'n uniongyrchol ar gyfer colposgopi gan Sgrinio Serfigol Cymru. O'r rhain, roedd gan 1 o bob 129 o unigolion (llai nag 1%) ganser yn ystod 2021-2022.

Cafodd 1 o bob 21 o unigolion a sgriniwyd yn ystod y flwyddyn eu hatgyfeirio'n uniongyrchol ar gyfer colposgopi gan Sgrinio Serfigol Cymru. O'r rhain, roedd gan 1 o bob 138 o unigolion (llai nag 1%) ganser yn ystod 2020-2021.

## Sylwadau

Mae Tabl 21 isod yn dangos nifer y cleifion newydd a welwyd yn ôl math o atgyfeiriad, yn ôl bwrdd iechyd a chanlyniad gwaethaf histoleg.

Tabl 21: Cleifion newydd a welwyd yn ôl math o atgyfeiriad a'r canlyniad gwaethaf o ran histoleg

| Bwrdd Iechyd | Canser | CGIN | CIN gradd uchel | CIN1 | Dim annormaledd wedi'i ganfod | Biopsi annigonol | Anhysbys | Dim biopsi wedi'i gymryd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Atgyfeiriad Uniongyrchol SSC (CSW) | 42 | 43 | 1,572 | 1,176 | 1,194 | 123 | 24 | 2,046 | 6,220 |
| Atgyfeiriad Arall | 18 | 4 | 106 | 236 | 564 | 30 | 26 | 1,981 | 2,965 |
| CYMRU | 60 | 47 | 1,678 | 1,412 | 1,758 | 153 | 50 | 4,027 | 9,185 |

Tabl 22: Cleifion newydd a welwyd yn ôl bwrdd iechyd a'r canlyniad gwaethaf o ran histoleg

| Bwrdd Iechyd | Canser | CGIN | CIN gradd uchel | CIN1 | Dim annormaledd wedi'i ganfod | Biopsi annigonol | Anhysbys | Dim biopsi wedi'i gymryd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 11 | 9 | 260 | 149 | 276 | 17 | 7 | 881 | 1,610 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 15 | 14 | 385 | 363 | 310 | 32 | 13 | 275 | 1,407 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 10 | 9 | 220 | 159 | 334 | 14 | 2 | 1,192 | 1,940 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 10 | 2 | 201 | 220 | 291 | 8 | 14 | 695 | 1,441 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 4 | 3 | 185 | 206 | 229 | 36 | 9 | 316 | 988 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 0 | 1 | 52 | 51 | 56 | 2 | 1 | 78 | 241 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 10 | 9 | 375 | 264. | 262 | 44 | 4 | 590 | 1,558 |
| Cymru Gyfan | 60 | 47 | 1,678 | 1,412 | 1,758 | 153 | 50 | 4,027 | 9,185 |
| % | 0.7% | 0.5% | 18.3% | 15.4% | 19.1% | 1.7% | 0.5% | 43.8% | 100.0% |

# Archwiliad o ganser ceg y groth yng Nghymru 2021-22

## Diffiniad a safon

Mae cronfa ddata Archwiliad Sgrinio Serfigol Cymru o Ganser Ceg y Groth (CSWACC) yn gronfa ddata bwrpasol ar y we, a ddefnyddir gan Sgrinio Serfigol Cymru yn unig. Mae pob diagnosis o ganser ceg y groth ar gyfer unigolion sy'n byw yng Nghymru ar adeg y diagnosis yn cael eu nodi ar gronfa ddata CSWACC. Mae'n bosibl y bydd nifer terfynol y canserau ar gyfer y cyfnod hwn yn cynyddu gan y gall data cofrestru canser gael ei oedi, ac oherwydd y gall rhai unigolion preswyl gael diagnosis 'allan o'r ardal'.

Nid oes safon ar gyfer yr adran hon.

## Y canlyniad ar gyfer 2021-2022

Ar lefel Cymru gyfan, cafodd 121 o ganserau eu diagnosio yn ystod 2021-2022

## Tuedd tair blynedd


Cafodd 121 o ganserau eu diagnosio yn ystod 2021-2022

Cafodd 110 o ganserau eu diagnosio yn ystod 2020-2021

Cafodd 125 o ganserau eu diagnosio yn ystod 2019-2020


## Sylwadau

Mae'r graffiau isod (Ffigurau 8,9,10) yn dangos nifer y canserau ceg y groth yn ôl band oedran, math ac oedran adeg diagnosis yn ogystal â nifer y canserau ceg y groth a gafodd ddiagnosis rhwng 2013 a 2022 yn ôl cam ac oedran adeg diagnosis.





Ffigur 8: Nifer y Canserau Ceg y Groth yn ôl Band Oedran

Yr ystod oedran ar adeg y diagnosis oedd rhwng 25 a 94 oed. Roedd y canolrif yn y grŵp oedran 50-54, gyda'r brig yn y grŵp oedran 30-34




Ffigur 9: Nifer y canserau ceg y groth yn ôl math ac oedran adeg diagnosis

O'r 121 o ganserau a gafodd ddiagnosis, roedd 88 (72.7%) yn garsinomâu celloedd cennog, 22 (18.2%) yn adenogarsinomâu, 4 (3.3%) yn garsinomâu adeno-cennog ac 1 (0.8%) yn 'arall'. Roedd y grŵp 'arall' yn cynnwys niwroendocrin, celloedd bach ac achosion lle nad oedd biopsi wedi'i gymryd i gadarnhau diagnosis histolegol. Roedd 6 achos nad oeddent wedi'u categoreiddio yn ôl math o ganser.




Ffigur 10: Nifer y canserau ceg y groth a gafodd ddiagnosis rhwng 2013 a 2022 yn ôl cam ac oedran adeg y diagnosis

# Statws wedi'i ganfod trwy sgrinio

## Diffiniad a safon

Y diffiniad o ganser a ganfuwyd trwy sgrinio yw canser a ganfuwyd yn dilyn atgyfeiriad oherwydd prawf sgrinio annormal. Gallai hyn gynnwys achosion lle nad yw unigolion wedi mynychu prawf sgrinio ers blynyddoedd lawer, cyn belled nad ydynt wedi mynychu am sgrinio oherwydd symptomau. Er mai nod y rhaglen sgrinio yw lleihau nifer yr achosion o ganser ceg y groth ymledol, weithiau caiff canser ei ganfod gan y prawf sgrinio.

Canserau na chanfuwyd drwy sgrinio yw'r rhai lle mae'r unigolyn yn dod oherwydd symptomau, gan arwain at eu diagnosis o ganser, yn hytrach nag o ganlyniad i brawf sgrinio. Gallai canserau na chanfuwyd drwy sgrinio ddigwydd mewn unigolion sydd â hanes sgrinio llawn, sydd wedi methu â mynychu am gyfnodau hir, neu sydd heb unrhyw hanes sgrinio.

Nid oes safon ar gyfer yr adran hon

## Y canlyniad ar gyfer 2021-2022

Ar lefel Cymru gyfan, cafodd 41 (33.9%) canser eu canfod drwy sgrinio a 77 (63.6%) ddim. Roedd 3 chanser na chafodd eu dosbarthu i statws wedi'u canfod trwy sgrinio.

## Tuedd tair blynedd


Cafodd 41 (33.9%) eu canfod drwy sgrinio a 77 (63.6%) ddim. Roedd 3 chanser na chafodd eu dosbarthu i statws wedi'u canfod trwy sgrinio yn ystod 2021-2022.

Cafodd 33 (30.0%) eu canfod drwy sgrinio a 73 (66.4%) ddim. Roedd 4 canser na chafodd eu dosbarthu i statws wedi'u canfod trwy sgrinio yn ystod 2020-2021.

Cafodd 43 (34.4%) eu canfod trwy sgrinio ac 80 (64.0%) ddim. Roedd 2 ganser na chafodd eu dosbarthu i statws wedi'u canfod trwy sgrinio yn ystod 2019-2020.


## Sylwadau

Mae'n amlwg fod y rhan fwyaf o'r canserau a ganfuwyd drwy sgrinio yn rhai cam cynnar (1A ac 1B), tra roedd canserau na chanfuwyd drwy sgrinio wedi'u canfod yn bennaf mewn cam mwy datblygedig.




Ffigur 11: Nifer y canserau ceg y groth yn ôl cam a statws canfod drwy sgrinio

Ar draws yr ystod oedran, roedd canserau mewn unigolion iau yn fwy tebygol o fod wedi cael eu canfod drwy sgrinio, tra roedd y rhan fwyaf o'r rhai mewn unigolion hŷn yn rhai nad oedd wedi'u canfod drwy sgrinio. Ymhlith unigolion dros 65 oed, nid oedd llawer wedi cael eu sgrinio erioed, neu nid oeddent wedi cael eu sgrinio ers blynyddoedd lawer. Mae'r grŵp olaf hwn yn cynnwys y rhai nad oeddent wedi cael eu sgrinio ers blynyddoedd lawer cyn 65 oed (pan wnaethon nhw adael y rhaglen), ond hefyd y rhai a gafodd eu sgrinio'n llawn hyd at 65 oed ond a gafodd ddiagnosis pan oeddent dros 70 oed.




Ffigur 12: Nifer y canserau ceg y groth yn ôl oedran a statws canfuwyd drwy sgrinio

Lle nad yw canser wedi'i ganfod drwy sgrinio, mae hanes sgrinio'r unigolyn yn cael ei gategoreiddio yn unol â'r rhestr isod (gan ddefnyddio diffiniadau NHSCSP): -

1 - Dim cofnod o sgrinio serfigol


2 - Wedi'i sgrinio fwy na 5.5 mlynedd cyn diagnosis (mae hyn yn cynnwys unigolion dros 65 oed a allai fod wedi cael eu sgrinio'n llawn hyd at yr oedran hwnnw)

3 - Sgrinio a gofnodwyd fel negatif yn unig o fewn y 6 mis - 5.5 mlynedd blaenorol (gallai hyn gynnwys sgrinio annigonol achlysurol os cafodd ei ailadrodd yn gyflym fel un negatif)

4 - Prawf/profion sgrinio nad ydynt yn negatif, gan gynnwys prawf/profion sgrinio annigonol, yn argymell ailadrodd (o fewn y 6 mis - 5.5 mlynedd blaenorol)

5 - Triniaeth flaenorol ar gyfer neoplasia intraepithelial serfigol (CIN) (o fewn y 6 mis - 5.5 mlynedd blaenorol) yn dilyn prawf sgrinio annormal sy'n argymell atgyfeirio

6 - Prawf sgrinio annormal o fewn y 6 mis - 5.5 mlynedd blaenorol yn argymell atgyfeiriad i golposgopi gydag oedi dilynol yn y diagnosis




Ffigur 13: Canserau nas canfuwyd drwy sgrinio yn ôl cam a hanes sgrinio

Mae yna batrwm rhwng y categori canfuwyd heb fod drwy brawf sgrinio ar gyfer yr achosion hyn a cham y canser. Po uchaf y cam, y mwyaf tebygol y maent o fod yn unigolion nad oes ganddynt naill ai unrhyw gofnod o brawf sgrinio serfigol (prawf ceg y groth), neu ei bod wedi bod dros 5.5 mlynedd ers eu prawf sgrinio diwethaf.

# Diffiniadau

### Cymhwysedd
Menywod cymwys a rhai gyda cheg y groth oedd yn byw yng Nghymru.

### Nifer a gafodd ei sgrinio
Noder na ellir mesur canran yr unigolion sy'n mynychu am brawf sgrinio o'i gymharu â'r ganran a wahoddwyd yn union gan y gallai rhai profion a gynhaliwyd yn y flwyddyn sgrinio (1 Ebrill i 31 Mawrth) ddeillio o wahoddiadau 'ymylol', a anfonwyd naill ai yn y flwyddyn sgrinio flaenorol, neu oedd yn rhai y gweithredwyd arnynt yn y flwyddyn ganlynol.

### Cwmpas
Nid yw ffigurau'r cwmpas yn rhai y gellir eu cymharu yn uniongyrchol o flwyddyn i flwyddyn.

- Cyn 1997-98, roedd pob unigolyn a ddosbarthwyd fel 'ailalw wedi peidio' gan y rhaglen (am resymau meddygol, oedran neu resymau eraill) wedi'u heithrio o'r enwadur a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r cwmpas.
- Ym 1998/99 newidiodd y diffiniad i eithrio dim ond yr unigolion hynny gydag “ailalw wedi peidio am resymau clinigol” (dim ceg y groth)
- Ers 2001-02, dim ond yr unigolion hynny a gafodd brawf digonol yn ystod y 3.5 neu 5 mlynedd diwethaf y mae ffigurau'r cwmpas yn eu cynnwys yn y rhifiadur.

### Cwmpas Addas i’r Oedran
Mae ffigurau cwmpas sy'n addas i’r oedran yn cynnwys unigolion 25-49 oed a gafodd brawf digonol yn ystod y 3.5 mlynedd diwethaf ac unigolion 50-64 oed a gafodd brawf digonol yn ystod y 5.5 mlynedd diwethaf yn y rhifiadur.

### Bwrdd Iechyd
Dyma’r bwrdd iechyd preswyl. Lle na ellir canfod pa un yw'r bwrdd iechyd, bydd unigolion yn ymddangos yn yr adroddiad o dan y teitl BI anhysbys.

### Gwahoddwyd
O 2016-17 ymlaen, cyfrifwyd nifer yr unigolion a wahoddwyd gan Sgrinio Serfigol Cymru trwy ddadansoddi'r data a dynnwyd o'r system galw ac ailalw (system NHAIS/Caerwysg) – gwahoddiadau a anfonwyd gan raglen Cymru at unigolion yn ystod y cyfnod.

### Wedi'u profi
O 2016-17 ymlaen, mae nifer yr unigolion a brofwyd gan Sgrinio Serfigol Cymru wedi'i gyfrifo trwy ddadansoddi'r data a dynnwyd o'r system galw ac ailalw – profion a gymerwyd yng Nghymru yn ystod y cyfnod.

### Atgyfeiriad uniongyrchol
Pan fydd canlyniad sampl sgrinio yn dangos bod angen archwiliad colposgopig ar unigolyn, Sgrinio Serfigol Cymru sy'n gwneud yr atgyfeiriad, yn hytrach na'r sawl sy'n cymryd y sampl.

**Cytoleg**
Archwiliad o gelloedd unigol o dan ficrosgop, i chwilio am newidiadau i gelloedd.

**Histoleg**
Archwiliad o feinwe'r corff (e.e. biopsïau) o dan ficrosgop.

**Colposgopi**
Archwiliad o geg y groth gan ddefnyddio archwiliad gweledol gydag asid asetig a chwyddiad.

**Gwerth Rhagfynegol Positif**
Y gwerth rhagfynegol positif (PPV) yw cyfran y rhai y credir bod ganddynt newidiadau celloedd gradd uchel ar cytoleg, sydd wedyn yn mynd ymlaen i fod ag annormaledd gradd uchel profedig.

Mae PPV cytoleg yn sicrhau cydberthynas rhwng barn am cytoleg gradd uchel a chanlyniad histoleg. Mae'n cyfrifo cyfran yr achosion lle mae biopsi digonol, yn dilyn prawf sgrinio a gofnodwyd fel dyscariosis gradd uchel (cymedrol) neu waeth, yn cynhyrchu diagnosis histolegol o CIN2 neu waeth. Mae hyn yn eithrio unigolion a atgyfeiriwyd at golposgopi yn dilyn canlyniad prawf o neoplasia chwarennol heb fod yn serfigol.

Mae canserau nad ydynt yn ganserau ceg y groth wedi'u heithrio o gyfrifiadau PPV. O 2012-13 mae'r diffiniad ar gyfer cyfrifo PPV wedi newid, mae'r enwadur bellach yn cynnwys – colposgopi dim annormaledd wedi'i ganfod (NAD) heb gymryd biopsi.
Mae PPV colposgopi yn sicrhau cydberthynas rhwng barn am golposgopi gradd uchel a chanlyniad histoleg.

**Gwerth Rhagfynegol Annormal**
Mae'r Gwerth Rhagfynegol Annormal (APV) yn cyfrifo canran y samplau a gofnodwyd fel newidiadau ffiniol neu ddyscariosis gradd isel a arweiniodd at atgyfeiriad a diagnosis histolegol dilynol o CIN2 neu waeth. Ar gyfer cyfnod yr adroddiad hwn, mae hyn hefyd yn cynnwys samplau a gofnodwyd fel rhai sy'n dangos 'newid ffiniol mewn celloedd endoserfigol'.

**Gwerth Atgyfeirio**
Diffinnir y gwerth atgyfeirio (RV) fel nifer yr unigolion a atgyfeirir at golposgopi ar gyfer pob un CIN2 neu ganlyniad histoleg gwaeth a ganfyddir. Mae hyn yn eithrio unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio at golposgopi yn dilyn canlyniad prawf annigonol neu a amheir o neoplasia chwarennol (heb fod yn serfigol).

**Digwyddedd**

Nifer yr achosion newydd y flwyddyn o ganser ceg y groth ymledol

**Afiachedd**

Y niwed a achosir gan ganser ceg y groth a thrwy drin canser ceg y groth, yn gorfforol ac yn seicolegol

**Marwolaethau**

Marwolaethau a achosir gan ganser ceg y groth ymledol.

# Y Tîm Cynhyrchu

Cyflogir holl dîm cynhyrchu'r adroddiad hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac fe'u rhestrir isod.

| | |
|---|---|
| Kate Lilly | Uwch Arbenigwr Gwybodeg a Data |
| Guy Stevens | Rheolwr Dros Dro Gwybodeg a Gwasanaethau Data |
| Lisa Henry | Pennaeth rhaglen Sgrinio Serfigol Cymru |
| Dr Sharon Hillier | Cyfarwyddwr yr Is-adran Sgrinio |
| Dr Graham Brown | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd |
| Dr Emma Richards | Ymchwilydd Iechyd Cyhoeddus |

Cyfieithwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ni chyhoeddwyd yr adroddiad hwn fel ystadegau swyddogol.

# Manylion cyswllt y rhaglen

Sgrinio Serfigol Cymru

18 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ

**E-bost:** south-cervical-screening@wales.nhs.uk

**Rhif Ffôn:** 029 2078 7910

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

# Working together for a healthier Wales